

Role

Ymddiriedolwr a Chadeirydd Pwyllgor Yr Alban

Mae gan Heather Reid gefndir mewn meteoroleg, hinsawdd, treftadaeth naturiol ac ymgysylltu â gwyddoniaeth. Mae hi'n cadeirio Pwyllgor y Gronfa Treftadaeth yn Yr Alban, a hefyd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Treuliodd ei gyrfa gynnar fel rhagolygwr tywydd gyda Swyddfa Dywydd y DU a BBC Scotland (1993–2009). Yn ystod y cyfnod hwn, daeth yn Gadeirydd Sefydliad Ffiseg yr Alban, yn Ymddiriedolwr Glasgow Science Centre ac yn gyfrannwr blaenllaw o fewn sector addysg yr Alban ar wyddoniaeth ac effeithiau newid hinsawdd.

Yn fwy diweddar, mae ei gyrfa wedi canolbwyntio ar rolau anweithredol yn sector yr amgylchedd. Ar hyn o bryd mae hi'n Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Loch Lomond a'r Trossachs ac yn aelod o Fwrdd NatureScot, asiantaeth natur Yr Alban. Mae hi hefyd wedi cael ei phenodi i Fwrdd Comisiwn Diwydiant D?r Yr Alban. Cynhelir ei hangerdd dros ymgysylltu â gwyddoniaeth fel Dirprwy Gadeirydd y ganolfan wyddoniaeth Dynamic Earth ac mae hi'n parhau i fod yn rhan o rolau ymgynghorol addysg wyddonol yn y sector cyhoeddus.

Derbyniodd Heather OBE am ei gwasanaethau i ffiseg yn 2006 ac mae wedi derbyn graddau er anrhydedd gan Brifysgol Paisley, Prifysgol Glasgow a'r Brifysgol Agored.

Mae hi'n ymlacio trwy feicio mynydd a cherdded bryniau ac yn ystyried cerdded Ffordd eiconig yr Ucheldiroedd Gorllewinol gyda'i merch yn un o brofiadau gorau bywyd.